Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Teifi

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae staff a disgyblion Ysgol Bro Teifi yn cydweithio'n agos i greu awyrgylch deuluol a chynnal ethos cynhwysol a gofalgar. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn sicrhau bod popeth sydd eu hangen arnynt o ran gofal a chefnogaeth ar gael yn ddi-rwystr. O'r dysgu sylfaen i'r chweched dosbarth, mae'r disgyblion yn gwireddu arwyddair yr ysgol, 'Oni heuir, ni fedir', yn llwyddiannus, gan fanteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol, parchus a charedig. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas dros amser o ystyried eu hoed a'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn dda yn eu gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn dangos parch at ei gilydd ac at staff ac maent yn annwyl a chroesawgar gydag ymwelwyr. Mae bron bob disgybl yn y chweched dosbarth yn arddangos agweddau arbennig o gadarnhaol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ADY yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau.

Mae'r ddarpariaeth ychwanegol a geir yn y canolfannau 'Hafan','Clwb Cwtsh' a 'Chlwb yr Enfys' yn cyfrannu'n werthfawr iawn at y gofal a'r gynhaliaeth i ddisgyblion sydd eu hangen. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion hynny'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn elwa o brofiadau eang yn yr ysgol. Mae presenoldeb disgyblion oedran cynradd yn gryf ac ar gynnydd. Serch hynny, mae presenoldeb disgyblion oedran uwchradd wedi gostwng yn ddiweddar i lefel islaw'r cyfartaledd cenedlaethol a'r ffigyrau cyfatebol mewn ysgolion tebyg.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnal perthynas waith gadarnhaol â disgyblion. Mae llawer o athrawon yn cynllunio ystod dda o wersi a phrofiadau dysgu diddorol sy'n adeiladu ar fedrau a gwybodaeth disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymrwymo'n llwyr i'w dysgu ac yn cymhwyso'u medrau'n gyson. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol wedi ei chydlynu'n ddigon gofalus ar draws y cwricwlwm.

Mae'r pennaeth yn gweithio'n ddiwyd i greu ymdeimlad cryf o waith tîm ac mae'n cyfleu ei weledigaeth yn llwyddiannus. Mae'n arweinydd angerddol sydd am sicrhau bod y disgyblion yn derbyn addysg o'r ansawdd orau wedi'i seilio'n gadarn ar werthoedd craidd cytûn. Mae'n gosod a chyfleu disgwyliadau uchel i holl gymuned yr ysgol ac yn cael ei gefnogi'n werthfawr gan weddill yr uwch dîm arwain. Mae gan arweinwyr adnabyddiaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella o ganlyniad i weithgarwch hunanwerthuso buddiol. Er hynny, nid ydynt bob amser yn ffocysu'n ddigon pendant ar werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion yn eu medrau dros amser.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

**A1** **Sicrhau darpariaeth gydlynus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn gynyddol**

**A2** **Gwella presenoldeb disgyblion oedran uwchradd**

**A3** **Miniogi gweithgareddau hunanwerthuso i ganolbwyntio'n well ar effaith y ddarpariaeth ar safonau disgyblion**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.